

# Rheoliadau

## Rheoli Llygredd Amaethyddol

Daeth y rheoliadau i rym ar 1 April 2021. Maent yn gosod sylfaen reoliadol i sicrhau bod pob busnes fferm yn gweithredu'n unol â safon sylfaenol ac yn diogelu dyfroedd Cymru rhag effeithiau llygredd amaethyddol.

### BETH SY'N DDISGWYLIEDIG?

Bydd rhai busnesau fferm yn gweld ychydig iawn o effaith neu ddim effaith o gwbl, a bydd busnesau eraill angen **amser a chefnogaeth** er mwyn gallu cydymffurfio.

Bydd **dull graddol** yn rhoi amser i chi baratoi a gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Peidiwch â phoeni, mae pob fferm yn wahanol, felly cymerwch yr amser i **ddarllen y canllawiau yn fanwl**, cyn gwneud unrhyw ragdybiaethau am yr effaith ar eich busnes.

Mae cymorth ar gael gan **Cyswllt Ffermio** a'r **Llinell Gymorth Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol** a weithredir gan ADAS.

Mewn ardaloedd a fu o fewn Parth Perygl Nitradau yn y gorffennol, ni fydd y gofynion yn cael eu cyflwyno'n raddol a bydd yr holl ofynion yn berthnasol o **1 Ebrill 2021**.



### CYFNODAU PONTIO

#### Mae'r gofynion sy'n berthnasol o 1 Ebrill 2021 yn cynnwys:

- Gofynion storio silwair - mae'r rhain yn aros yr un fath â gofynion storio Silwair, Slyri ac Olew Amaethyddol (SSAFO).
- Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer gwasgaru gwrtait nitrogen sydd wedi cael ei weithgynhyrchu
- Mae'n rhaid i dail organig sy'n cael ei roi ar bridd moel neu sofrl gael ei ymgorffori o fewn 24 awr yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.
- Cyn gwasgaru, rhaid archwilio'r cae. Os oes risg sylweddol y bydd unrhyw nitrogen yn mynd i mewn i ddŵr wyneb, gan ystyried ffactorau fel y tywydd a'r ddaear (e.e. tir wedi'i rewi/dan ddŵr), llethr (uwch nag 20%), math o bridd a pha mor agos yw'r draeniau tir.
- Mae'n rhaid hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 14 diwrnod cyn dechrau ar waith i wella storfa slyri neu silwair neu adeiladu storfa newydd.

#### Mae'r gofynion sy'n berthnasol o 1 Ionawr 2023 yn cynnwys:

- Cadw map o'r risgiau.
- Rhaid llunio cynllun rheoli maetholion, gan ystyried cyflenwad nitrogen y pridd a gofynion y cnwd.
- Ni ddylai mewnbynnau gwrtait fod yn fwy na therfynau cynydu penodedig.
- Ni ellir defnyddio mwy na 170kg/ha o nitrogen o dail da byw bob blwyddyn, ar gyfartaledd dros y daliad, naill ai wedi'i ysgarthu'n uniongyrchol gan yr anifail neu drwy wasgaru.
- Mae terfyn uchaf o 250kg/ha yn berthnasol i wasgaru tail organig ar unrhyw gae bob blwyddyn.

#### Mae'r gofynion sy'n berthnasol o 1 Awst 2024 yn cynnwys

- Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer tail organig gyda chynnwys nitrogen sydd ar gael yn rhwydd. Fel arfer, slyri, tail dofednod neu slwtsh wedi'i dreulio â hylif yw hwn.
- Rhaid darparu digon o le storio i gynnwys y slyri a gesglir dros gyfnod o 5 mis, neu 6 mis ar gyfer slyri moch a thail dofednod, lle bo hynny'n briodol.

#### CYNGOR SYDD AR GAEL:

[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

Llinell Gymorth Rheoliadau Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS - **01974 847 000**

Ceir canllawiau manwl ar wefan Llywodraeth Cymru. -

[llyw.cymru/rheoli-tir](http://llyw.cymru/rheoli-tir)